



Rheoli Ilaeth dafad er mwyn cynhyrchu caws

Arloesi

RHEOLI DEFAID LLAETH AR GYFER CAWS

Yn fyd-eang mae'r farchnad Ilaeth dafad yn werth £23bn ac fe'i defnyddir i wneud amrywiaeth o gynnyrch gwerth uchel o gaws i laeth powdr babanod. Mae Ilaeth dafad yn ddewis amgen i laeth buwch ac mae'n cynnig nifer o fanteision iechyd, gan gynnwys bod yn ffynhonnell dda o brotein, yn uchel mewn calsiwm, a gall fod yn addas ar gyfer y rhai sydd ag anoddefiad i laeth buwch.

Mae Ilaeth, wrth gwrs, yn gynhwysyn allweddol mewn llawer o gynhyrchion fel caws, iogwrt a hufen iâ. Mae'r cynnwys uchel solet o laeth dafad, fel arfer 5.4% o brotein a 7% o fraster, yn ei wneud yn gynhwysyn delfrydol ar gyfer y cynhyrchion hyn. Felly bu cynnydd cyflym yn y galw am laeth dafad, nid yn unig yng Nghymru ond ledled y DU.

O'i gymharu â'r sector gwartheg godro confensiynol yng Nghymru, mae dealltwriaeth wael o ba ffactorau sy'n rheoli proffil bacteriolegol Ilaeth dafad. Cyn y twf posibl hwn mewn defaid godro i lefel masgynhyrchu, roedd yn bwysig bod cymaint o wybodaeth â phosibl am laeth y defaid yn cael ei chasglu.

Roedd y grŵp y tu ôl i'r prosiect eisiau deall yn well effaith y newidynnau canlynol ar facteroleg a chyfansoddiad Ilaeth dafad trwy edrych ar gamau Ilaetha, y brid, gyda ffocws ar ddefaid Ffrisia pur, Llŷn pur a chroesfrid Ffrisia a Llŷn ac yn olaf yr atodiad diet seleniwm ar gyfer defaid.

MANTEISION Y CYLLID

Yn 2019, sicrhodd y prosiect £40,000 o gyllid drwy Bartneriaeth Arloesedd Ewropeaidd (EIP Cymru).

Roedd EIP Cymru, a ddarperir gan Menter a Busnes, wedi derbyn cyllid drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, a ariannwyd gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

Cyfrannodd dros 60 o ddefaid laeth i'w ddadansoddi, gyda thros 1,000 o samplau Ilaeth yn cael eu profi'n rheolaidd ar gyfer amrywiaeth eang o facteria yn ystod 2019 a 2021.

Cynhaliwyd profion Ilaeth rheolaidd i asesu a oedd patrwm ym mhroffil bacteriolegol y Ilaeth yn ystod y cylch Ilaetha. Cafodd bacteria penodol fel *Staphylococcus aureus*, sy'n enwog am fod yn bresennol mewn Ilaeth buwch ac sy'n gysylltiedig â mastitis clinigol eu mesur hefyd, gyda Chyfrifiadau Celloedd Somatig yn cael eu monitro bob 3-4 wythnos fel arwydd o lid y gadair, boed yn glinigol neu'n is-glinigol.



MAE'R DYFODOL YN DDISGLAIR...

Gyda'r farchnad gynyddol ar gyfer defaid llaeth ledled y DU ac Ewrop, bu'r prosiect hwn yn allweddol wrth archwilio'r bacteria sy'n gysylltiedig â ffermio defaid a'r rheolaeth bosibl ar fastitis. Mae cefnogi ffermwyr defaid llaeth Cymru a chynhyrchwyr caws llaeth dafad yn hanfodol i dyfu'r farchnad mewn ffordd ddiogel a chynaliadwy.



"Mae'r wybodaeth rydyn ni wedi'i chael o'r prosiect wedi rhoi sylfaen gadarnach ar gyfer fy mherthynas fusnes ag Alan ac mae dull tebyg yn cael ei ddatblygu gyda ffermwyr defaid llaeth eraill. Mae gwybodaeth yn rhoi grym, a hyder.

"Rydyn ni i gyd yn cael y boddhad mwyaf o wybod bod ein caws Brefu Bach yn ymddangos ar fyrddau caws y sefydliadau bwyta mwyaf nodedig yn Llundain ac weithiau Paris."

Dr Carrie Rimes, gwneuthurwr caws sydd wedi ennill gwobrau

"Gobeithio y bydd cynyddu dealltwriaeth y sector hwn yn annog mwy o ffermwyr i ymuno â'r diwydiant defaid llaeth. Bydd cynnydd yn nifer y ffermwyr defaid llaeth yn arwain at sylfaen gyflenwi fwy o laeth dafad. Gall hyn greu diwydiant o gynhyrchwyr bwyd arbenigol gan ddefnyddio llaeth dafad Cymreig fel cynhwysyn craidd yn eu cynnyrch.

"Gweledigaeth y grŵp yw bod ar flaen y gad yn y sector datblygol hwn yng Nghymru a gosod sylfaen gref lle mae'r system gynhyrchu yn seiliedig ar laeth o ansawdd uchel i'r defnyddiwr."

Geraint Hughes, Ymgynghori Lafan